HARDDWCH DYSG DOETHINEB

YSGOL GLAN CLWYD

# Pecyn Gwybodaeth
# **Dirprwy Bennaeth**



Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn swydd Dirprwy Bennaeth Y Cwricwlwm yn Ysgol Glan Clwyd.

Dyma gyfle arbennig i ymuno â chymuned fyrlymus a chroesawgar sydd a'i phwyslais ar gynnydd a llesiant pob unigolyn.

Fel y gwyddoch, Ysgol Glan Clwyd oedd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyntaf Cymru, ac fe'i sefydlwyd yn 1956 i ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych. Ers y dyddiau cyffrous, arloesol cynnar hynny mae'r ysgol wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth hybu addysg Gymraeg o'r radd flaenaf gan ymestyn y ddarpariaeth honno a'i hapêl. Ein nod o fewn muriau Ysgol Glan Clwyd yw 'Byw'r Gymraeg' gan sicrhau pob cyfle posib i'r iaith ffynnu yn y rhan arbennig yma o Gymru.

Er ein bod bellach fel ysgol yn cynnwys dros fil o ddisgyblion mae'r ymdeimlad agos a chynhaliol o deulu yn parhau yn greiddiol i weithrediad Ysgol Glan Clwyd. Rydym yn ymfalchïo yn yr egwyddor yma o deulu ac fe gredwn mai gyda'n gilydd yn deulu y gallwn ni gyflawni'r gorau er budd ein holl randdeiliaid. Er ein bod yn ysgol o faint mae sicrhau adnabyddiaeth wych o'n disgyblion yn flaenoriaeth. Drwy eu hadnabod fel unigolion gallwn eu cefnogi'n bersonol ac yn emosiynol, gan warantu fod pob disgybl yn cael chwarae teg i gyflawni ei botensial ac i fod yn Gymro neu'n Gymraes flaengar.

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ffodus iawn erbyn hyn o'r adnoddau a'r isadeiledd rhagorol yn yr ysgol. Mae'r adeiladau a'r adnoddau newydd a modern yn darparu amgylchedd gadarnhaol a phriodol er mwyn i addysg ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae bod yn rhan o dîm Ysgol Glan Clwyd yn golygu gweithio mewn awyrgylch gymunedol lle mae gonestrwydd a thryloywder yn egwyddorion creiddiol. Mae bod yn driw i'r tim yn Ysgol Glan Clwyd yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cyd-symud yn effeithiol i gyflawni'r gorau gyda'n gilydd. Credwn yn gryf fod cyfranogiad pob aelod o'n cymuned yn greiddiol i sicrhau ysgol hapus a ffyniannus a theimlwn gyfrifoldeb a balchder tuag at ein cymuned ar bob achlysur. Un nodwedd arbennig yw ein gallu i gefnogi ein gilydd a chanfod datrysiadau er mwyn creu awyrgylch gwaith sy'n gynhaliol ac sy'n datblygu pawb.

Yma yn Ysgol Glan Clwyd mae llywodraethwyr sydd wedi eu hymrwymo i gyflawni gweledigaeth yr ysgol, staff brwdfrydig a medrus a phobl ifanc dawnus, cwrtais llawn afiaeth sydd yn arddangos balchder yn eu hysgol ar bob achlysur.

Gobeithio y cewch gynnwys y pecyn gwybodaeth yma'n ddefnyddiol wrth ystyried eich cais, hoffwn eich annog i fanteisio ar y cyfle i ymweld â'r ysgol. Mae croeso i chi gysylltu â Mrs Rhian Davies i drefnu amser cyfleus. Mi fyddwn i'n hynod falch o gael cyfle i'ch tywys o gwmpas ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am yr ysgol.

Bydd y gefnogaeth lwyraf gennyf i'r ymgeisydd llwyddiannus ac edrychaf ymlaen at gydweithio'n hyderus i 'Feithrin Cymry Blaengar' gyda'n gilydd yn dîm.

Yn gywir

**Siân Alwen**
Pennaeth Mewn Gofal

# Swydd Dirprwy Bennaeth

Rydym yn awyddus i benodi Dirprwy Bennaeth blaengar sy'n arweinydd ysbrydoledig a chadarn a fydd yn gweithredu'n broffesiynol i sicrhau llwyddiant yr ysgol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu'n strategol i gyflawni gweledigaeth fydd yn meithrin Cymry blaengar y dyfodol. Disgwylir i'r ymgeisydd fod yn hynod gymwys ym mhob un o'r safonau cenedlaethol i athrawon ac yn hyfedr wrth drosglwyddo'r sgiliau hyn i gynllunio'n strategol er mwyn sicrhau ffyniant ein disgyblion yn ogystal â dysgu proffesiynol ein staff. Bydd bod yn addysgwr rhagorol yn hanfodol er mwyn galluogi deilydd y swydd i arfarnu safonau addysgu a dysgu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r gallu i ysbrydoli staff a chynnig arweiniad mesuredig a chynhaliol yn flaenoriaeth.


### Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus:

- Flaenoriaeth i hyrwyddo cyflawniad, cynnydd a llesiant disgyblion yn barhaus
- Ymrwymiad gadarn at addysg cyfrwng Cymraeg a phwysigrwydd hynny o fewn y cyd-destun lleol a chenedlaethol
- Y gallu i gynorthwyo'r Pennaeth i gynnig arweinyddiaeth fydd yn hyrwyddo addysgu a dysgu rhagorol a gosod gwreiddiau moesol a dilwylliannol gadarnhaol i'n disgyblion
- Sgiliau cydweithio campus gyda holl randdeiliaid yr ysgol er mwyn hyrwyddo'r safonau uchaf
- Y gallu i arwain gwelliant drwy fonitro'n effeithiol ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion
- Afael gadarn ar brosesau asesu ar draws y continiwm oedran ac o fewn y cymwysterau a gynigir
- Wybodaeth ddofn am egwyddorion asesu cynnydd y Cwricwlwm ac yn hyderus wrth drosglwyddo'r rhain yn brosesau ysgol gyfan
- Weledigaeth glir o'r hyn yw bwriad Cwricwlwm Cynhwysol a'r modd y mae gwireddu hynny fel ysgol a thrwy gydweithio gyda sefydliadau addysgol eraill
- Gaffael arbennig ar sgiliau cymell a mentora er mwyn cefnogi staff i gyflawni eu gwaith ar y lefel uchaf.
- Hyder i gefnogi, ysbrydoli, herio a datblygu staff er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a boddhad staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd
- Drefnusrwydd effeithiol wrth ymdrin â chyllid, dyranu adnoddau a sicrhau effeithlonrwydd staff.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol er mwyn trosglwyddo gweledigaeth yr ysgol i'n holl randdeiliaid












# Bod yn Aelod o dîm Ysgol Glan Clwyd



**Rydym fel ysgol yn cynnig:**

- Blaenoriaeth i ddatblygaid proffesiynol pob aelod o staff
- Ysgol gydag agwedd egnïol a chynhwysol at ddysgu – gyda phawb o fewn y tîm yn dysgu ac yn datblygu
- Tîm cryf a brwdfrydig o staff sy'n gweithredu fel teulu gan gynnal a chefnogi ei gilydd
- Adeilad ac adnoddau rhagorol wedi eu cynllunio ar gyfer yr addysg orau yn yr 21G
- Adnoddau digidol ac isadeiledd safonol a phwyslais ar agweddau digidol yn yr addysgeg
- Ysgol Gymraeg yn darparu addysg Gymraeg o'r radd flaenaf yng nghanol sir Ddinbych
- Lleoliad cyfleus yn agos i briffordd yr A55 sy'n galluogi i staff heidio atom o 8 sir wahanol
- Ysgol Feithrin ar Safle









# Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol gyfun ar gyfer dros 1,000 o bobl ifanc 11-18 oed gyda thraddodiad o ddarparu profiadau ac addysg ddwyieithog o ansawdd i ddisgyblion ein cymuned. Dyma'r Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru ac rydym yn ymfalchïo yn y fraint o ddatblygu plant ac oedolion ifanc Sir Ddinbych yn ddinasyddion cwbl ddwyieithog.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol o ardaloedd arfordirol yng Ngogledd y sir ac o ardaloedd cefn gwlad. Pob un ohonynt gyda'u toreth o acenion Cymreig sydd yn cyfoethogi ac yn dathlu ein hamrywiaeth Cymreig o dan yr un to!

Amcan yr ysgol yw rhoi'r sylw priodol i ddatblygiad ac addysg pob plentyn a ddaw i'n gofal gan bwysleisio pwysigrwydd profiadau ar lawr dosbarth. Byddwn hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol boed yn waith elusennol, perfformiadau ysgol gyfan, chwaraeon, profiadau cerddorol gan gynnwys Eisteddfodau yn ogystal â digwyddiadau STEM – mae'r rhestr yn hirfaith!

Bydd gweld disgyblion yn llwyddo yn y meysydd amrywiol hyn yn rhoi'r boddhad mwyaf i ni.

Er mwyn i'n disgyblion fanteisio i'r eithaf ar y profiadau a gynigir, mae'n hanfodol bwysig eu bod yn hapus yn yr ysgol. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith beunyddiol ac rydym yn falch o'r enw da sydd gennym fel ysgol sydd yn cynnig gofal ardderchog dros ein disgyblion gan sicrhau'r sylw personol hwnnw. Ein nod yw creu awyrgylch lle mae pob unigolyn, boed yn ddisgybl neu yn athro, yn aelod o'r tîm cefnogi disgyblion neu yn staff gweinyddol yn arddangos parch, parodrwydd a'r balchder o berthyn i deulu Ysgol Glan Clwyd.

Ym mis Medi 2017, agorwyd adeilad newydd sbon yn dilyn prosiect gwerth £15.9 miliwn a ariannwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn datblygiad yr ysgol a'i chyfleusterau arbennig galluogir i ni ddarparu disgyblion gydag addysg sy'n gweddu i'r 21ain Ganrif.

**Mae'r cyfleusterau yn cynnwys:**

- 3 swît TGCh
- Buddsoddiad helaeth mewn meddalwedd arbenigol
- Dros 1,000 o liniaduron/Chromebook
- Canolfan Ymchwil
- Theatr pwrpasol
- Stiwdio recordio
- Stiwdio Drama, Cerddoriaeth a Chelf
- Yr unig Gae Pob Tywydd 3G maint llawn yn y sir
- Caeau eang ar gyfer pêl-droed, rygbi ac athletau
- Ardal Gemau Defnydd Amrywiol sy'n cynnwys cyrtiau tenis, cyrtiau pêl-rwyd, cyrtiau pêl-fasged a chyrtiau sponcen
- 6 labordy pwrpasol a 3 labordy arddangos
- Gweithdy Dylunio a Thechnoleg newydd sbon
- Ystafelloedd dysgu modern
- Canolfan 6ed Dosbarth
- Cyfleusterau addysgu sy'n cynnwys dosbarthiadau mawr cyfforddus, ystafelloedd grwpiau llai ac ardaloedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol
- Canolfan Anghenion Addysgol Ychwanegol sy'n cefnogi disgyblion o fewn awyrgylch cefnogol, pwrpasol
- Ystafell fwyta fawr sy'n cynnwys cyfleusterau arlwyo arbennig.





# Manyleb Person

| Agwedd neu Faes | Yn hanfodol | Yn Ddymunol | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| Medrau a rhinweddau | • Yn awyddus ac yn frwd dros addysg gyfrwng Cymraeg gan gyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol.<br>• Ymroddiad llwyr i'r disgyblion a'u dysgu, eu lles, a'u diogelwch<br>• Yn gallu gwneud a chyfiawnhau penderfyniadau anodd a rheoli'r broses o newid yn effeithiol<br>• Yn gyfathrebwr rhwydd ac effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig<br>• Yn onest ac yn ddibynadwy, ac yn parchu cyfrinachedd<br>• Yn hyderus ac yn frwdfrydig<br>• Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da<br>• Yn gallu cyd-weithio mewn tîm<br>• Yn gallu gweithio dan bwysau, gweithio'n hyblyg, a blaenoriaethu'n effeithiol<br>• Yn uchelgeisiol, brwdfrydig ac egniol | • Yn meddu ar fedrau TGCh da er mwyn ysgogi a manteisio ar holl agweddau e-weinyddu<br>• Yn awyddus i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol | • Llythyr cais a Ffurflen gais<br>• Tystlythyrau<br>• Cyfweliad<br>• Tasgau cyfweliad |
| Cymwysterau a phrofiad | • Statws Athro Cymwysedig<br>• Yn raddedig<br>• Tystiolaeth o Ddysgu Proffesiynol Parhaus<br>• Profiad hunan arfarnu a chynllunio'n strategol ar gyfer gwella<br>• Profiad o arwain ar agweddau traws ysgol<br>• Aelod cofrestredig o GGAC<br>• Profiad o ddefnyddio data'n llwyddiannus.<br>• Profiad amlwg o weithio mewn ysgol gyfrwng Gymraeg, neu Ddwyieithog, ac o'r rhyngweithio sydd o fewn y sector addysg cyfrwng Cymraeg | • Dealltwriaeth o'r system addysg sy'n bodoli yng Nghymru a pholisïau sy'n deillio o Lywodraeth Cymru<br>• Ymrwymiad i ymgymryd â CCPC | • Llythyr cais a Ffurflen gais<br>• Tystlythyrau<br>• Cyfweliad<br>• Tasgau cyfweliad |
| Arwain y Dysgu ar Addysgu ac Agweddau at Ddysgu | • Yn gallu hyrwyddo addysgu a dysgu o ansawdd uchel.<br>• Yn meddu ar ddealltwriaeth dda er mwyn monitro ac arfarnu safonau cyflawniad yn effeithiol.<br>• Yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd gweithredu cwricwlwm cynhwysol ac addas<br>• Gallu hyrwyddo ymddygiad da a disgyblaeth drwy'r ysgol<br>• Ymarferydd ystafell ddosbarth ardderchog<br>• Yn gyfarwydd ag arferion da dysgu ac addysgu, gan ddefnyddio'r profiad a'r wybodaeth er budd yr ysgol | • Profiad mewn mwy nag un ysgol uwchradd | • Llythyr cais a Ffurflen gais<br>• Tystlythyrau<br>• Cyfweliad<br>• Tasgau cyfweliad |
| Arwain a rheoli staff | • Yn gallu arwain trwy esiampl<br>• Sensitifrwydd wrth ddelio gyda materion mewn perthynas â lles staff a disgyblion<br>• Tystiolaeth o ddefnyddio rheoli perfformiad yn effeithiol i arwain a hybu gwelliannau<br>• Yn gallu ysgogi staff i wneud eu gorau<br>• Yn gallu sicrhau a chefnogi'r perthynas gwaith cadarnhaol, a chynnal moral<br>• Yn deall pwysigrwydd a threfniadau Dysgu Proffesiynol Parhaus | • Yn gallu cadw cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith | • Llythyr cais a Ffurflen gais<br>• Tystlythyrau<br>• Cyfweliad<br>• Tasgau cyfweliad |
| Atebolrwydd | • Yn gallu cyd-weithio'n effeithiol gyda'r Corff Llywodraethol i'w gynorthwyo i ymateb i'w gyfrifoldebau<br>• Yn gallu cyd-weithio'n effeithiol ac yn adeiladol gyda'r Awdurdod Lleol a GWE a rhanddeiliaid eraill<br>• Yn barod i ymateb i lais disgyblion, gan sicrhau trefniadau i wneud hynny | | |
| Ansawdd y cais | • Ansawdd y cynnwys – dylid sicrhau nad yw'r datganiad ategol yn fwy na 2 dudalen A4<br>• Perthnasedd uniongyrchol i'r fanyleb hon | | • Ffurflen Gais |

# Telerau'r swydd a sut i ymgeisio

**Rhif y swydd:**
YYGC00336W1RDE

**Telerau'r swydd:**
**Amrediad Cyflog: L18 - L22 (£72,985 - £80,497)**

**Dyddiad Cychwyn:**
**1af o Fedi 2024**

**Sut i ymgeisio?**
Gallwch wneud cais trwy eteach a gwefan Sir Ddinbych.
Llenwch y ffurflen ar wefan Cyngor Sir Dinbych **www.sirddinbych.gov.uk**
Amlinellwch ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd hon yn eich datganiad ategol.

**Dyddiad cau'r swydd yw:**
**Dydd Mercher, 15fed o Fai 2024**

**Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal:**
**Dydd Iau a Gwener, 23 a 24 Mai 2024**

Os hoffech drefnu i ymweld â'r ysgol, neu am unrhyw wybodaeth ychwanegol cysylltwch â Rhian Davies, Swyddog AD Clwstwr Glan Clwyd ar: **swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk** neu 01745 582611
Byddwn ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau yn ystod y gwyliau Pasg os oes angen.

**Bydd y penodiad yn amodol ar wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.**












# Meithrin Cymry Blaengar

Cydweithio fel teulu i gyflawni'r gorau



YSGOL GLAN CLWYD